Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| **ADRAN:** | Ysgol Gynradd Brynmenyn |
| **SWYDD:** | Goruchwyliwr Llanw |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR08 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Pennaeth |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Yn absenoldeb yr athro/athrawes ddosbarth gyfrifol byddwch yn galluogi parhad dysgu drwy ddehongli, defnyddio a chyflawni ymarferion a baratowyd ymlaen llaw a gwaith wedi'i osod, yn ogystal ag ymgysylltu, cymell a rheoli ymddygiad disgyblion.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cymryd lle'r athro/athrawes ddosbarth drwy ddefnyddio deunyddiau wedi'u paratoi ymlaen llaw, gan benderfynu ar addasu lle y bo angen.
- Creu a chynnal a chadw amgylchedd bwriadol, trefnus a chefnogol, yn unol â chynlluniau gwersi.
- Asesu anghenion dysgu a dyfeisio dulliau amgen o hwyluso dysgu a dealltwriaeth.
- Darparu gofal arbenigol i'r disgyblion hynny â gofynion sylweddol.
- Hyrwyddo cynhwysiant a sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i gyfleoedd i ddysgu a datblygu.
- Bod yn ymwybodol o ofynion gwahanol y disgyblion.
- Monitro a gwerthuso llwyddiant gweithgareddau yn erbyn mesurau y cytunwyd arnynt. Rhoi adborth manwl a rheolaidd i athrawon ar gyflawniad, cynnydd a phroblemau disgyblion.
- Gall fod yn ofynnol ichi oruchwylio eraill, dyrannu a gwirio gwaith, cyfarwyddo a monitro staff yn yr ystafell ddosbarth.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

### Iechyd a Diogelwch

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

### Cyfle Cyfartal

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

### Diogelu

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm Asesu Diogelu Plant.

### Adolygiad a Hawl i Amrywio

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

### Swyddfa Cofnodion Troseddol

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Goruchwyliwr Llanw

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | NVQ lefel 4 ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu neu gymhwyster/profiad cyfwerth.<br><br>Hyfforddiant Cymorth Cyntaf priodol.<br><br>Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. | (Ydy)<br><br><br><br>(Ydy) | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais |
| **Gwybodaeth a**<br><br>**Phrofiad** | Profiad blaenorol o weithio gyda phlant o oed perthnasol<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cwricwlwm cenedlaethol/cwricwlwm y cyfnod sylfaen, strategaethau/rhaglenni dysgu perthnasol.<br><br>Deall egwyddorion datblygiad plant a'u dysgu.<br><br>Dealltwriaeth dda o rolau a chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth. | (Ydy)<br><br><br><br>(Ydy) | Cyfweliad, ffurflen gais a geirdaon. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | Sgiliau llythrennedd a rhifedd gwych. | | Cyfweliad, ffurflen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Defnydd effeithiol o TGCh i gynorthwyo dysgu<br><br>Gallu datblygu a gweithredu cynlluniau dysgu clir a realistig a monitro cynnydd<br><br>Gallu cysylltu'n dda â phlant ac oedolion. | (Ydy) | gais a geirdaon. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | Gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm.<br><br>Yn gwrtais wrth ddelio â staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.<br><br>Yn rheoli amser yn effeithiol.<br><br>Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |